# COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

## BWRDD CABINET YR AMGYLCHEDD, ADFYWIO A GWASANAETHAU STRYDLUN

## DYDD GWENER, 19 EBRILL 2024

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr: J.Hurley a/ac S.Jones (Cadeirydd)

**Swyddogion yn bresennol:**

S.Brennan, D.Griffiths, J.Stevens, Mrs.J.Davies, A.Phillips, B.Suddell, T.Rees a/ac C.Plowman

**Gwahoddedigion craffu:**

Cynghorwyr: S.Pursey a/ac R.Wood

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

   Cytunwyd penodi'r Cynghorydd S Jones yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

   Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

   Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

4. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

   Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2024 fel cofnod cywir.

5. **AMSER CWESTIYNAU CYHOEDDUS**

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

6. **PROSIECT ANGORI I FUSNESAU A ARIENNIR GAN Y GRONFA FFYNIANT GYFFREDIN (CFFG) - GWELLA CYMORTH BUSNES AR GYFER TWF AC ARLOESEDD - DIWEDDARIAD**

**Penderfynwyd:**

Nodi’r adroddiad.

7. **CYDBWYLLGOR CORFFOREDIG DE-ORLLEWIN CYMRU - CYNLLUN TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL - DADL DROS NEWID - DIWEDDARIAD**

**Penderfynwyd:**

Dylid nodi'r adroddiad.

8. **CYNLLUN YNNI ARDAL LEOL CASTELL-NEDD PORT TALBOT**

**Penderfynwyd:**

Nodi’r adroddiad.

9. **GORCHYMYN RHEOLEIDDIO TRAFFIG - B4603 YNYSMEUDWY ROAD A CHLOS NANT DDU PONTARDAWE (GWAHARDD AROS, LLWYTHO NEU DDADLWYTHO AR UNRHYW ADEG) A GORCHYMYN (CLUSTOGAU ARAFU) ORDER 2024**

**Penderfynwyd:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig:

- Bydd y gwrthwynebiadau'n cael eu cadarnhau'n rhannol mewn perthynas â Gorchymyn B4603 Heol Ynysmeudwy a Chlos Nant Ddu, Pontardawe (Gwahardd Aros, Llwytho a Dadlwytho, ar Unrhyw Adeg) a (Clustogau Arafu) 2024 (Fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd)
- Ymgynghori ar y cynllun diwygiedig (fel y nodir yn Atodiad B i'r adroddiad a ddosbarthwyd)
- Hysbysir y gwrthwynebwyr o'r penderfyniad yn unol â hynny

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Bydd y gorchmynion rheoleiddio traffig arfaethedig/mesurau gostegu traffig yn hwyluso traffig i deithio'n ddiogel ac yn helpu i leihau cyflymder traffig er budd diogelwch ar y priffyrdd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn a ddaeth i ben am 9am ddydd Mawrth, 23 Ebrill 2024.

10. **RHESTR O GONTRACTWYR CYMERADWY**

**Penderfynwyd:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig, fod y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy yn cael ei newid fel a ganlyn:

Cwmnïau a fydd yn cael eu tynnu oddi ar y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy am y rhesymau a nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd:

| **Cwmni** | **Categori** |
|---|---|
| Belzona Technosol Ltd (B029) | 111 |
| Mitie Roofing Ltd (M024) | 17,17A,17B,17C,17D,17E |

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Sicrhau bod y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy yn gyfoes, a chyhyd ag y bo modd, sicrhau proses gaffael gystadleuol.

Caiff yr argymhellion hyn eu mabwysiadu at ddiben darparu Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy ar gyfer gwahoddiad i dendro yn y categori perthnasol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn a ddaeth i ben am 9am ddydd Mawrth, 23 Ebrill 2024.

11. **CYNLLUN RHEOLI ASEDAU EIDDO 2024-2029**

**Penderfynwyd:**

Cymeradwyo mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2024-2029 ar ôl rhoi sylw dyledus i gam cyntaf yr Asesiad Effaith Integredig.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Nodwyd y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol fel dogfen allweddol sy'n cefnogi rheolaeth y Cyngor o'i asedau gweithredol a rhai nad ydynt yn weithredol a bydd yn disodli'r Cynllun Rheoli Asedau Strategol (2016-2021).

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn a ddaeth i ben am 9am ddydd Mawrth, 23 Ebrill 2024.

12. **EITEMAU BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

13. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD - GWAHARDD Y CYHOEDD**

**Penderfyniad:**

Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff eithrio 14 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 yn amodol ar gymhwyso Prawf Budd y Cyhoedd (lle bo'n briodol).

14. **BWRIAD I WAREDU TIR DATBLYGU PRESWYL YM MLAENBAGLAN (YN EITHRIEDIG DAN BARAGRAFF 14)**

**Penderfynwyd:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i gam cyntaf yr Asesiad Effaith Integredig:

- Rhoddir awdurdod i Bennaeth Eiddo ac Adfywio gysylltu â'r cynigydd uchaf yn unig am gyfnod o chwe mis. Caiff adroddiad pellach ei lunio ar gyfer aelodau a fydd yn nodi unrhyw newidiadau i'r cais gwreiddiol (os oes newidiadau wedi bod).
- Os bydd y cais newydd yn is na'r hyn y mae'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio yn barod i'w argymell i'r Bwrdd neu os yw'n is na'r ail gais uchaf, yna bydd y Pennaeth Eiddo ac Adfywio'n trafod gyda'r ail, trydydd a phedwaredd ceisiadau uchaf er mwyn cael cynigion terfynol i'w cyflwyno i'r Bwrdd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Bydd cael gwared ar yr eiddo'n cyflwyno datblygiad preswyl mawr ei angen a bydd yn rhoi derbyniad cyfalaf i'r Cyngor ac yn cael gwared ar unrhyw gyfrifoldeb cynnal a chadw yn y dyfodol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn a ddaeth i ben am 9am ddydd Mawrth, 23 Ebrill 2024.

15. **BWRIAD I ADNEWYDDU PRYDLES Y LLYFRGELL GYHOEDDUS AR LAWR CYNTAF CANOLFAN SIOPA ABERAFAN PORT TALBOT I'R CYNGOR (YN EITHRIEDIG DAN BARAGRAFF 14)**

**Penderfynwyd:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig cam cyntaf, cymeradwyo amodau a thelerau ar gyfer y brydles newydd yn ôl y telerau a nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

I sicrhau bod y Cyngor yn gallu parhau i ddarparu llyfrgell gyhoeddus i gymuned leol Castell-nedd Port Talbot a darparu gwasanaethau addysgiadol, amgylcheddol a diwylliannol hanfodol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn a ddaeth i ben am 9am ddydd Mawrth, 23 Ebrill 2024.

**CADEIRYDD**